

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant**  
**Neuadd Talog, Nos Iau, 3ydd o Fawrth 2022**

**Yn bresennol:** Mr Ian Williams, Mr Chris Bish, Mr Eirian Howells, Mr Rhun Llwyd, Mrs Katrina Gabillia  
Cynghorydd Jean Lewis

**1. Sylwadau'r Cadeirydd:** Mi wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Mr Robin Williams

**3. Cadarnhau cofnodion mis Ionawr:**

Cynnig: Mr Rhun Llwyd

Eilio: Mr Ian Williams

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

(a) Dim diweddariad wedi dod i law ynghylch gwaith sydd angen gael ei wneud ar droedffordd o fewn y gymuned

(b) Mae gwaith ar safle dro Cilwendeg ar waith. Maent yn ail-adeiladu och yr hewl

(c) Dim diweddariad ynghylch ffrâm i ddal cabinet diffibriliwr yn Abernant. Eirian Howells i ddilyn fyny gyda'r contractwr

(ch) Dim diweddariad ynghylch y draen sydd wedi blocio

(d) Mae'r arwyddion ar hyd ffordd C2037 heb gael ei drwsio. Clerc i ddilyn fyny gydag adran priffyrdd Cyngor Sir Gâr

(dd) Dim diweddariad pellach ynghylch trefnu cyfarfod gydag adran priffyrdd Cyngor Sir Gâr i drafod lleoli

(e) Nid yw'r Cyngor Sir eto wedi cwblhau'r gwaith atgyweirio ar arwyddion ffordd yn yr ardal. Clerc i atgoffa'r Cyngor Sir

(f) Dim diweddariad pellach am drefnu cyfarfod gydag adran priffyrdd Cyngor Sir am y posibilrwydd o gael 'crash barrier' wrth ymyl rhan o'r hewl ger Cilwendeg. Clerc a'r Cynghorydd Sir i gysylltu gyda Mr Anthony Jones – Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Gâr

**5. Gohebiaeth**

Fe ddaeth nifer o e-byst i sylw'r cynghorwyr

Nodwyd gan Gynghorydd Jean Lewis y byddai yn gobeithio trefnu cyfarfod gyda chwmni rhwydwaith y we 'Broadway' am brosiect band eang

**6. I'w drafod**

(a) Adroddwyd nad yw beicwyr yn cau'r gât ger fferm Penrallt. Does dim materion pellach gyda'r ail gât.

(b) Dim diweddariad pellach wedi dod i law wrth Gyngor Sir Gâr ar ein cais i ail-wynebu'r heol ger y Felin, Brynhyfryd

(c) Angen cysylltu gyda G.D. Harries, gan ofyn iddynt rhoi 'stop tap haearn' a gafodd ei ddinistrio yn ystod gwaith ail wynebu'r ffordd drwy bentref Talog

(ch) Dim diweddariad gyda'r posibilrwydd o ffurfio grŵp i glirio'r llwybrau cyhoeddus yn ardal y Cyngor Cymuned

(d) Graenu'r ffordd o Gapel Bethania i 'American House' – mae'r Cynghorydd Jean Lewis wedi bod mewn cyswllt gydag adran priffyrdd Cyngor Sir ac maent wedi nodi nad yw'r heol yma yn rhan o'r llwybr graenu

(dd) Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r niwed sydd wedi cael ei achosi i bont Talog. Clerc i ddilyn fyny am ddiweddariad

**7. Taliadau**

HMRC - £20.80 x 2

Hosting UK net - £32.12

Cyfrifwyr – DMB Davies £300 (Archwilio Cyfrifon)

Neuadd Talog - £50

R.W. Maskell (Cyflog Chwefror) - £83.37

Ambiwllans Awyr Cymru - £25 (Rhodd Elusennol)

R.W. Maskell (Cyflog Mawrth) - £83.37

Cymdeithas Opera Sir Gâr - £2 (Rhodd Elusennol)

R.W. Maskell (Costau teithio) - £60.12

Clwb Ffermwyr Ifanc Penybont - £25 (Rhodd Elusennol)

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.10yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Fercher, 11eg o Fai am 7.30yh yn Neuadd Talog.

